CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 2 CHWEFROR 2016

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W L Davies

Cynghorwyr
B Owen, W R Owen, W T Owen, I C Thomas, H W Roberts, M Thomas, A Hopcyn, E Lovgreen, E Hughes, T Thomas, C Williams, G Thomas (p)

Siaradwr Gwadd: Selwyn Jones Grŵp Marchnata Caernarfon
Gohiriwyd tan cyfarfod nesaf y Cyngor

1. **Ymddiheuriadau**
   Cyng M Sarnacki (salwch) Cyng A Bohana (gweithio),
   Cyng G Thomas (Salwch), Cyng K Williams

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Sefydlu Parch Mererid Mair yn weinidog Salem
Pwyllgor Galeri ar ran y Cyngor
Panel Personnel
Gwasanaeth Holocaust yn y Cyngor Sir

3. **Datgan Buddiant Personol**

W R Owen – cynllunio
W T Owen – Cynllunio
A Hopcyn – cynllunio eitem 3
I C Thomas – trwyddedu
E Hughes – eitem Maesincla Eye

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i) Cyngor, 19 Ionawr 2016
ii) Is Bwyllgor Adloniant 19 Ionawr 2016
*(*wedi eu cymeradwyo yng Nghyngor 19 Ionawr 2016))
iii) Panel Cyllid a Staff 20 Ionawr 2016
iv) Pwyllgor Personel 26 Ionawr 2016

Penderfynwyd

i. Derbyn fel rhai cywir
ii. Er gwybdodaeth
iii. Derbyn a mabwysiadu
iv. Derbyn y polisïau a mynd ati iw cyfieuthu

Derbyn yr elfennau gwerthuso gan sicrhau bod unrhyw un fydd yn gwerthuso yn derbyn hyfforddiant
Derbyn gweddill y cynnwys

6. Ceisiadau Cynllunio a Thrwyddedu

I ystyried y ceisiadau cynllunio a thrwyddedu

Penderfynwyd

1. C16/0032/14/LL **Cytuno**
Estyniadau un llawr yn y cefn ac ar dalcen gorlleinol yr eiddo ynghyd ac ail-leoli sied gardd

1 Muriau Park, Caernarfon

****

2. C16/0033/14/LL **Cytuno**
Diwygio amod Rhif 15 o ganiatâd cynllunio Rhif C12/0563/14/LL er mwyn galluogi I llety'r warden gael ei feddiannu yn barhaol
Glanmorfa, Seiont Mill Road, Caernarfon

****

3. C16/0031/14/LL **Cytuno**
Newid defnydd yr ail lawr ar gyfer uned breswyl fydd yn gysylltiedig a'r deintyddfa, estyniad yng nghefn yr eiddo ynghyd a lleoli uned cyflyru aer yn y cefn

Church Street Dental Practice 10 Church Street Caernarfon

Trwydded Eiddo/Premises Licence

The Old Market Hall, Stryd y Plas, Caernarfon

Cytuno/Agree

7. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn au talu

8. Cysoni Cyfrifon
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

9. Maerolaeth

Enwebu Maer etholedig am y flwyddyn 2016– 2017
Cynnigwyd gan Cyng M Thomas ac eiliwyd gan Cyng H W Roberts
Penderfynwyd
I ethol Cyng B Owen yn Faer etholedig am y flwyddyn 2016/2017

10. Unllais

Dyddiadau hyfforddiant lleol
Penderfynwyd
Enwau i'r clerc – Cyng A Hopcyn, W L Davies a T Thomas yn dymuno mynychu modiwl 5

11. Rhybudd o Gynnig Cyng. Ann Hopcyn

Par: Plac Lewis Jones
Penderfynwyd
Cefnogi cynnwys y rhybudd o gynnig ag i geisio cydweithio gyda'r Gymdeithas Dinesig yn y man cyntaf ond gan sicrhau ein bod ni yn chwarae rhan yn y trafodaethau a dymuno i weld Arglwydd Dafydd Wigley iw dadorchuddio

12. **‘ . Cymru** ’

Ar gael bellach ond canllawiau clir
Penderfynwyd
Mynd ati i brynnu y ddau enw Caernarfon-ct.gov.Cymru a Caernarfon – tc.gov.Wales

13. Unllais Cymru

Pâr: Goleufeydd 90 Penblwydd y Frenhines

Penderfynwyd
Clerc i drafod efo’r Clwb Hwylio i weld a fyddai’n bosib ail danio yr hen un a mynd ati drefnu

14. Goleuadau Nadolig

. adborth
. pethau newydd
. ffens o amgylch 7 goeden
Penderfynwyd
Rhoi yr hawl i’r clerc gael trafodaethau a Cyngor Gwynedd am y problemau ar y polion a trydan y goedan
Adborth bod y cynllun wedi bod yn llwyddiant ysgubol yr unig wendid oedd y goeden tu allan i’r post
Gofyn o fewn y cytundeb oes modd cael trydanwr lleol i helpu allan pan mae problemau
Gofyn wrth Manton edrych ar drwsio’r ffens inni

Gadawodd Cyng C Williams am 6.40

15. Cath Wyllt

Heddlu yn gobeithio ei dderbyn fel rhodd tuag at eu arddangosfa addysgiadol
Penderfynwyd
Ceisio cael gwybod ei gwerth gynta

16. Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd

Copi o’r adroddiad blynyddol ar y bwrdd
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

17. Cyngor Gwynedd

Cyfyngiadau parcio arfaethedig
Penderfynwyd
Cytunno ond gofyn i newid yr amseroedd o 7-5.30 tu allan i Ysgol Syr Hugh Owen
A gofyn o dan pa rheolau mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu ar parthed Assheton Terrace a pwy sydd yn berchennog o'r tir

18. Llythyr Maesincla Eye

Pâr: Hysbysfwrdd mewn cysodfannau bysus
Penderfynwyd
Gofyn am fwy o fanylion cyn iddynt fynd i gostau gan bod y llythyr ddim yn glir o gwbl

19. Llywodraeth Cymru

Gwariant adran 137 am 2016 – 2017
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

20.**E-bost o ddiolch gan Frondeg**
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

21.**Adroddiad o gyfarfod 'mwy na geiriau' dogfen ymgynghorol ar y bwrdd**
Penderfynwyd
Gofyn iddynt roi pwysau ar Gymreigio Coleg Meddygol Caerdydd gan bod trigolion lleol sydd efo'r cymwysterau yn cael eu gwrthod ac wedyn yn mynd i astudio mewn prifysgolion yn Lloegr yn ogystal a gofyn iddynt edrych i mewn i gael Coleg Meddygol ym Mangor

22. **Adroddiad Cyng. Ann Hopcyn o gyfarfod Cadw**

Dogfennau perthnasol ar y bwrdd

Penderfynwyd

Creu is bwyllgor adhoc sef A Hopcyn, E Lovgreen, E Hughes,B Owen, W L Davies a M Thomas i edrych i weld os oes na bethau i'r Cyngor yma weithredu arnynt , ac ystyried gwahodd Laurence Smith ir cyfarfodydd a'r clerc i holi Laurence beth ydi'r rheolau am ddefnyddio a dyfynnu bod Caernarfon yn Safle Treftadaeth y Byd

23. **Gorchymyn parcio trwodd dros dro**

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

24. **Cyngor Gwynedd**

Llythyr parthed Canolfan ddydd Maesincla

Penderfynwyd

Diolch am y llythyr a croesawu'r cynnwys

25. Cwestiynau

Dim

Gorffenodd y cyfarfod am 7.20

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....